



**Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding**

**Protocol Aml-Asiantaeth
Cleisiau, marciau ac
anafiadau yn achos plant
nad ydyn nhw'n symud yn
annibynnol**



**Cadarnhawyd gan y Bwrdd
Mehefin 2024**

**Is-grŵp Protocolau a
Gweithdrefnau**

**Dyddiad adolygu
Mehefin 2025**

Cynnwys

Rhif tudalen

Cyflwyniad	3
Nodau	3
Gweithdrefnau i ymarferwyr yn y gymuned	3
Atodiad 1 – Sut i wneud Dyletswydd i Roi Gwybod	5
Atodiad 2 - Y Broses Ddiogelu Amlasiantaeth Mewn Achosion O Anafiadau Nad Ydyn Nhw'n Ddamweiniol Posibl/Wedi'u Cadarnhau	6

1. Cyflwyniad

Cleisiau, marciau ac anafiadau yw'r nodweddion mwyaf cyffredin o gam-drin corfforol yn achos plant nad ydyn nhw'n symud yn annibynnol. Mae plentyn 'nad yw'n symud yn annibynnol' yn blentyn nad yw'n cropian, yn llusgo ar ei ben-ôl, yn tynnu i sefyll, yn cerdded â chymorth neu'n cerdded yn annibynnol eto. Mae hyn yn cynnwys pob plentyn dan chwe mis oed, y rhan fwyaf o blant dan flwydd oed a rhai plant hŷn ag anableddau fel parlys yr ymennydd. Yr ieuengaf yw'r plentyn, y mwyaf yw'r perygl nad yw'r cleisiau, marciau neu anafiadau yno ar ddamwain. Mae sylfaen ymchwil sylweddol a chadarn i arwyddocâd cleisiau yn achos plant.

Ni ddylai clais, marc neu anaf gael ei ddehongli ar ei ben ei hun a rhaid ei asesu bob amser yng nghyd-destun yr hanes meddygol a chymdeithasol, y cam datblygiadol a'r esboniad sy'n cael ei roi.

Dylai'r protocol hwn gael ei ddarllen ar y cyd â Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019 y mae'n rhaid i bob ymarferydd eu dilyn. Dylid cyfeirio hefyd at y Protocol Rhyngasiantaeth ar gyfer Cynnal Ymholiadau Amddiffyn Plant Adran 47 rhanbarthol, sydd i'w weld yma. [Protocol Rhyng-asiantaeth ar gyfer Cynnal Ymholiadau Amddiffyn Plant Adran 47 – Gorffennaf 2021 \(gwentsafeguarding.org.uk\)](http://gwentsafeguarding.org.uk)

Cyfrifoldeb pawb yw diogelu. Gallai methu â rhoi gwybod am glais, marc neu anaf yn amserol olygu bod plentyn mewn perygl parhaus o niwed sylweddol.

2. Nodau

Mae'r protocol hwn yn darparu gwybodaeth i ymarferwyr rheng flaen am beth i'w wneud os ydyn nhw'n gweld cleisiau, marciau neu anafiadau ar blant nad ydyn nhw'n symud yn annibynnol.

3. Y Weithdrefn ar gyfer Ymarferwyr yn y Gymuned

Os oes pryderon dybryd ynghylch diogelwch neu les unrhyw blentyn, dylid cysylltu â'r gwasanaethau brys drwy ffonio 999 i gysylltu â'r heddlu. Dylid ceisio sylw meddygol priodol hefyd os oes angen.

Mae achosion o gleisiau, marciau a/neu anafiadau ar blentyn nad yw'n symud yn annibynnol yn brin a dylai hyn godi amheuaeth. Dylai hyn arwain at atgyfeiriad ar unwaith at y Gwasanaethau i Blant a fydd yn dilyn gweithdrefnau diogelu plant a cheisio asesiad meddygol o'r anaf. Mae'n bwysig bod ymarferwyr mor dryloyw â phosibl gyda theuluoedd ynghylch pa wybodaeth fydd yn cael ei rhannu, pam a gyda phwy, oni bai y byddai gwneud hynny'n rhoi'r plentyn mewn mwy o berygl.

Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019 yn nodi, os oes gan ymarferydd achos rhesymol i amau bod plentyn mewn perygl, mae'n rhaid rhoi gwybod dros y ffôn cyn gynted â phosibl i'r Gwasanaethau i Blant. Yn dilyn unrhyw atgyfeiriad dros y ffôn, rhaid cyflwyno ffurflen Dyletswydd i Roi Gwybod o fewn 24 awr. Mae manylion ynghylch sut i gyflwyno ffurflen Dyletswydd i Roi Gwybod yn Atodiad 1.

Gall pob ymarferydd ddefnyddio eu barn broffesiynol, fodd bynnag, os nad ydyn nhw'n siŵr, dylen nhw ofyn am gyngor bob amser. Efallai y bydd angen i ymarferwyr drafod eu pryderon â'u swyddog diogelu dynodedig cyn cyflwyno ffurflen Dyletswydd i Roi Gwybod. Rhaid gwneud hyn ar unwaith yn dilyn canfod clais, marc neu anaf fel bod

modd gwneud yr atgyfeiriad/Dyletswydd i Roi Gwybod dros y ffôn fel mater o frys, ac yna gyflwyno'r ffurflen Dyletswydd i Roi Gwybod o fewn 24 awr. Os nad yw'r swyddog diogelu dynodedig ar gael, **nid** yw hyn yn reswm i oedi gyda'r ffurflen Dyletswydd i Roi Gwybod; dylech chi gysylltu â'r Gwasanaethau i Blant i rannu gwybodaeth a cheisio arweiniad. Mae manylion cyswllt ar gyfer pob Awdurdod Lleol yng Ngwent yn Atodiad 1.

Yn dilyn canfod y clais, marc neu anaf, a'r alwad ffôn ar unwaith i roi gwybod am y pryderon, efallai na fydd hi'n ymarferol bob amser i ymarferydd aros gyda'r plentyn tan fod y Gwasanaethau i Blant yn gallu ymateb.

Fodd bynnag, os yw'r plentyn mewn **peryl dybryd**, mae angen cysylltu â'r Heddlu drwy ffonio 999 ac os yw'r ymarferydd yn teimlo'n ddiogel, fe ddylai aros gyda'r plentyn. Os nad yw'r ymarferydd yn gallu aros gyda'r plentyn, fe ddylai wneud hyn yn glir i'r gwasanaethau cymdeithasol wrth roi gwybod am y pryder.

Ar ôl cael Dyletswydd i Roi Gwybod dros y ffôn, ym mhob achos o gleisiau, marciau a/neu anaf i blentyn nad yw'n symud yn annibynnol, dylid cynnal trafodaeth/cyfarfod strategaeth i ganiatáu i ymarferwyr amlasiantaeth rannu gwybodaeth a nodi unrhyw gamau pellach. Yr arfer orau yw bod yn **rhaid** i hyn gynnwys cynrychiolydd iechyd o'r Hwb Diogelu Corfforaethol, a/neu Nyrs Arweiniol ar gyfer Rhai Agored i Niwed, a/neu Ymwelydd Iechyd, a/neu, o bosibl, Bediatregydd ar alwad, yr atgyfeirydd, cynrychiolwr o'r heddlu, a'r Gwasanaethau i Blant. Fodd bynnag, mae'n cael ei gydnabod nad yw bob amser yn bosibl sicrhau bod cynrychiolydd iechyd yn bresennol pan fo angen cyfarfodydd strategaeth y tu allan i oriau. Gall unrhyw asiantaethau eraill sy'n ymwneud â'r plentyn a'i deulu gael eu gwahodd hefyd neu gael gwybodaeth ganddyn nhw i helpu gyda gwneud penderfyniadau, e.e. y Gwasanaeth Prawf, Cynghorwr Annibynnol ar Drais Domestig. Os oes plant eraill yn y teulu sy'n hŷn, dylid ystyried gwahodd asiantaethau sy'n ymwneud â'r plentyn hwnnw, megis Addysg.

Mae achosion o gleisiau neu anafiadau damweiniol yn achos plant nad ydyn nhw'n symud yn annibynnol yn brin. **Bydd yr argymhellion ynghylch a yw anaf, marc neu glais angen archwiliad meddygol amddiffyn plant yn cael eu harwain gan asesiad y cynrychiolydd iechyd**, fodd bynnag, cyfrifoldeb ar y cyd pob aelod o'r drafodaeth/cyfarfod strategaeth yw nodi cynllun gweithredu gan sicrhau bod mesurau diogelu priodol ar waith.

Bydd camau priodol yn cael eu cymryd yn dilyn y drafodaeth/cyfarfod strategaeth, yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru.

Atodiad 1

I gael y ffurflen Dyletswydd i Roi Gwybod, manylion cyswllt ac arweiniad perthnasol, dilynwch y ddolen isod:

[Rhoi gwybod am blentyn sydd mewn perygl – Diogelu Gwent](#)

Blaenau Gwent

Ffôn: 01495 315700

E-bost: DutyTeam@blaenau-gwent.gov.uk

Caerffili

Ffôn: 0808 100 1727

E-bost: CysylltuAcAtgyfeirio@caerffili.gov.uk

Sir Fynwy

Ffôn: 01291 635669

E-bost: ChildDuty@monmouthshire.gov.uk

Casnewydd

Ffôn: 01633 656656

E-bost: children.duty@newport.gov.uk

Torfaen

Ffôn: 01495 762200

E-bost: socialcarecalltorfaen@torfaen.gov.uk

Ar ôl 5pm ac ar y penwythnos a gwyliau banc, cysylltwch â Thîm Dyletswydd Argyfwng De-ddwyrain Cymru ar 0800 328 4432.

Os ydych chi'n meddwl bod plentyn neu oedolyn mewn perygl dybryd, cysylltwch â'r heddlu ar 999.

**Y BROSES DDIOGELU AMLASIANTAETH MEWN ACHOSION O ANAFIADAU NAD YDYN
NHW'N DDAMWEINIOL POSIBL/WEDI'U CADARNHAU**
Mae'r broses hon yn ymwneud ag unrhyw bryderon new

